# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


08.01.21

Annwyl Riant/ Gofalwr

**Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru**

Heddiw, rydym wedi derbyn y cyhoeddiad y bydd ysgolion yn parhau ar gau tan Ionawr y 29ain gyda rhybydd ychwanegol y bydd tebygolrwydd cryf bod ysgolion yn parhau ar gau tan hanner tymor. Rwy'n siŵr, ar ôl gweld y cyfraddau heintiau a'r marwolaethau cyfredol, ei bod yn ddealladwy bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud.

**Addysgu Wyneb yn Wyneb / Dysgu o Bell**

Mae staff eisoes wedi dechrau darparu dysgu ar-lein ac wythnos nesaf, bydd dysgu byw hefyd yn dechrau. Gofynnaf ichi i gyd ail-ymgyfarwyddo â'r contract ysgol gartref sy'n amlinellu'r disgwyliad o ddysgu byw. Mae y contract ar gael ar we fan yr Ysgol. Bydd eich athro dosbarth yn darparu amserlen a gwybodaeth bellach am eu disgwyliadau erbyn dydd Llun.

**Gofal Plant Brys**

Bydd y gefnogaeth hon yn parhau. Cysylltwch â'r ysgol os ydych chi'n teimlo eich bod chi'n weithiwr allweddol ac angen defnyddio'r ddarpariaeth hon. Fel y crybwyllwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg yn ei llythyr, ni ddylid defnyddio'r cyfleuster hwn oni bai nad oes unrhyw opsiynau gofal plant eraill ganddych.

**Prydau ysgol am ddim**

Bydd taliadau bacs yn parhau nes bydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol.

**Staff**

Rydym yn croesawu Karen Griffiths yn ôl i'r ysgol ar ôl ei hamser ar famolaeth. Bydd hi'n dysgu Blwyddyn 3 ochr yn ochr â Rhys Jones, yn rhan amser.

Bydd Mrs Cath Jones yn cymryd gofal dros ddysgu Blwyddyn 1 hyd nes bydd Mrs Rhian Hiley yn dychwelyd o'i mamolaeth yn nhymor yr haf.

Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus mewn sefyllfa sy'n dal i fod yn un heriol, pryderus, rhwystredig a chyfnewidiol.

Yn Gywir

E. Wakeham

Elin Wakeham
Pennaeth


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**